

aradgoch



Gŵyl Celfyddydau Perfformio Rhyngwladol  
Cymru i Gynulleidfaoedd Ifanc

# AGOR DRYSAU OPENING DOORS

Wales International Festival of  
Performing Arts For Young Audiences

1 – 4 Ebrill / April 2014



Mewn cydweithrediad â /  
In collaboration with

CANOLFAN Y CELFYDDYDAU  
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE



Cyngor Celfyddydau Cymru  
Arts Council of Wales



Yn Gydweithrediad â /  
In collaboration with  
Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

CLWB BUSNES

aberystwyth

BUSINESS CLUB

# CYNNWYS / CONTENTS

- 3** Croeso / Welcome – Nick Capaldi
- 4** Gair gan Gyfarwyddwr yr Ŵyl
- 5** A Word from the Festival Director
- 6 – 7** Rhaglen / Programme
- 8** Luna
- 9** The Quiet Tree and The Creatures of Whistleberry Forest
- 10** Where The Leaves Blow
- 11** Kish Kush
- 12** Cwpwrdd Dillad
- 13** Clann Lir
- 14** Ulysses
- 15** Izzy Tooinsky And The Man Eating Chicken
- 16** The Enormous Turnip
- 17** Echoa
- 18** Adar Llatai
- 19** Mummers Play
- 20** Outsiders
- 21** Sexting
- 22** Dead Born Grow
- 23** Pirates And Mermaids
- 24** King Hit
- 25** Gweithdai a Thrafodaethau / Workshops and Discussions
- 26 – 29** Hysbysebion / Adverts
- 30** Cwmni Theatr Arad Goch
- 31** Nodiadau / Notes

[agordrysau-openingdoors.org.uk](http://agordrysau-openingdoors.org.uk)



# CROESO / WELCOME

**Nick Capaldi – Prif Weithredwr Cyngor Celfyddydau Cymru  
Chief Executive Arts Council of Wales**

Mae theatr yn ein gwahodd i freuddwydio, yn galw ar ein dychymyg. Pan mae'n llwyddiannus, gall theatr ein cludo i fydoedd newydd a datgelu pethau newydd amdanom ni a'r byd o'n hamgylch. Yn ein byd cythryblus modern, fu hyn erioed cyn bwysiced gan fod theatr yn caniatáu inni ddala drych i fyny at ein hunain a'r rheini o'n hamgylch. Faint wyddon ni mewn gwirionedd am sut i fyw bywyd llawn a chyfoethog? Beth yw'r ddealltwriaeth a'r ystyron newydd y gall diwylliannau eraill eu datgelu inni? Ydyn ni'n sylwi ar ddoethineb a harddwch – ar ymateb deheuig neu lawn dychymyg i heriau bywyd bob dydd?

Caiff y cwestiynau hyn, a llawer mwy, eu gofyn (a'u hateb gobeithio) yn ystod Agor Drysau. Gallwn edrych ymlaen at wledd arbennig o theatr ar gyfer pobl ifainc o bob cwr o'r byd. Felly dewch inni agor ein meddyliau, â chwilfrydedd a disgwylgarwch, a mwynhau'r ŵyl ryngwladol yma o greadigedd a dychymyg.

*Theatre offers us an invitation to dream, a call to our imagination. When it works well theatre can transport us to new places and reveal new things about ourselves and the world around us. In today's troubled world, this has never been more important as theatre allows us to hold a mirror up to ourselves and those around us. How much do we really know about how to live a full and rich life? What are the insights and meanings that other cultures can reveal to us? Do we notice wisdom and beauty – a deft or imaginative response to the challenges of everyday life?*

*These questions, and many more, will all be asked (and hopefully answered) during Agor Drysau. We can look forward to a rich feast of theatre for young people from around the world. So let's open our minds, with curiosity and anticipation, and enjoy this international festival of creativity and imagination.*

## Gair gan Gyfarwyddwr yr Ŵyl

Dyma'r wythfed Gŵyl AGOR DRYSAU—OPENING DOORS i Gwmni Theatr Arad Goch ei threfnu – dyma'r unig ŵyl o'i bath yng Nghymru ac mae'n cynnig cyfle gwych i gynulleidfaoedd Cymru i weld rhai o'r perfformiadau gorau yn y byd.

Mae'r ŵyl hefyd yn ffenestr siop wych i farchnata gwaith theatr nodedig Cymru i weddill y byd. Ers sefydlu'r ŵyl gyntaf ym 1996, mae Arad Goch wedi teithio i nifer o wledydd gan gynnwys Rwsia a Thunisia yn 2013 ac mae taith i Dde Korea ar y gweill ar gyfer yr haf.

Eleni mae'r ŵyl yn fwy nag erioed gan fod Cwmni Theatr Arad Goch yn dathlu ei ben-blwydd yn 25 oed ... felly mae rhaid cael parti! Rydym yn falch bod nifer o hen ffrindiau yn dychwelyd i Gymru i berfformio a mynychu'r ŵyl ac rydym yn gyffrous i groesawu ffrindiau newydd sy'n perfformio yma am y tro cyntaf.

Ni fyddai'r ŵyl yn bodoli heb gefnogaeth barhaol Cyngor Celfyddydau Cymru, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth a theatrau y tu hwnt i Aberystwyth sy'n gweithio'n galed i sicrhau fod plant a phobl ifanc mewn ardaloedd eraill yn cael profi'r arlwy. Eleni rydym hefyd yn falch iawn o gefnogaeth nifer o noddwyr newydd gan gynnwys Clwb Busnes Aberystwyth.

Gyda 16 perfformiad o 8 gwlad, trafodaethau, seminarau a digwyddiadau awyr agored mae rhywbeth i bawb yn AGOR DRYSAU 2014, felly dewch a mwynhewch y parti!



## A Word from the Festival Director

*This is the 8th AGOR DRYSAU–OPENING DOORS festival organised by Cwmni Theatr Arad Goch. It's the only festival of its kind in Wales and provides audiences in Wales with an amazing opportunity to sample some of the best world wide theatre.*

*The festival is also a shop window to promote the fantastic theatre created in Wales to the rest of the world. Since the first AGOR DRYSAU–OPENING DOORS festival in 1996, Arad Goch has toured to several countries including Russia and Tunisia in 2013 and is currently preparing for a performance in South Korea.*

*Cwmni Theatr Arad Goch is celebrating its 25th birthday this year, and the festival will be bigger than ever! We are pleased that old friends will be returning to the festival and we're looking forward to welcoming new friends who will be performing for the first time, it's going to be an international birthday party!*

*The festival would not exist without the continuous support of the Arts Council of Wales, Ceredigion County Council, Aberystwyth Arts Centre and all the theatres beyond Aberystwyth who continue to allow young people in their area to sample the international programme. This year we are also very fortunate to be supported by the Aberystwyth Business Club as well as several individual businesses.*

*With 16 performances from 8 countries, discussions, professional seminars and open air events there's something for everyone in OPENING DOORS 2014, so come along and enjoy the party!*

**Jeremy Turner**  
**(Cyfarwyddwr yr ŵyl /**  
**Festival Director**

**CANOLFAN ARAD GOCH - 01970 617 998**

1.4.14

**SXTO** 12:00 £8 £5

2.4.14

**OUTSIDERS** 14:30 + 20:00 £8 £5

**PIRATES AND MERMAIDS** 14:30 + 17:15 (i fynd i leoliad arbennig / to go to performance site) £8 £5

**THE QUIET TREE AND THE CREATURES OF WHISTLEBERRY FOREST** 17:00 £5

3.4.14

**CLANN LIR** 11:00 + 14:00 £5

**PIRATES AND MERMAIDS** 12:00 (i fynd i leoliad arbennig / to go to performance site) £8 £5

4.4.14

**WHERE THE LEAVES BLOW** 10:45 + 13:45 £5

**KING HIT** 20:15 £8 £5

**CANOLFAN Y CELFYDDYDAU ABERYSTWYTH  
ARTS CENTRE – 01970 623 232**

1.4.14

**KISH KUSH** 13:45 £8 £5

**DEAD BORN GROW** 20:00 £10 £5

2.4.14

**KISH KUSH** 10:45 + 13:30 £8 £5

**CWPWRDD DILLAD** 10:45 + 13:30 £5

3.4.14

**LUNA** 09:45 + 14:00 £5

**ECHOA** 10:30 + 13:30 £8 £5

4.4.14

**ULYSSES** 13:45 + 18:30 £8 £5

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU  
NATIONAL LIBRARY OF WALES**

(Tocynnau / Tickets Canolfan Arad Goch)

3.4.14

**PIRATES AND MERMAIDS** 19:30 £8 £5

## PERFFORMIAD AWYR AGORED / OUTDOORS

29.3.14

**GORYMDAITH ARMAGH RHYMERS PROCESSION,**  
Aberystwyth

## PERFFORMIADAU MEWN YSGOLION

### PERFORMANCES IN SCHOOLS

(Ddim ar agor i'r cyhoedd / Not open to the public)

28.3.14

Gweithdy / Workshop: **THE ARMAGH RHYMERS**

31.3.14

**THE ENORMOUS TURNIP** 10:00 + 14:00

1.4.14

**ADAR LLATAI** 9:30 + 13:45

**THE QUIET TREE AND THE CREATURES OF  
WHISTLEBERRY FOREST** 10:30 + 13:45

**IZZI TOOINSKY and THE MAN EATING CHICKEN**

13:00 + 14.15

2.4.14

**THE ENORMOUS TURNIP** 9:30 + 13:30

**THE QUIET TREE AND THE CREATURES OF  
WHISTLEBERRY FOREST** 9:30 + 10:45

3.4.14

**KING HIT** 11:00

4.4.14

**IZZI TOOINSKY and THE MAN EATING CHICKEN**

9:10 + 13:45

## AGOR DRYSAU ERAILL / OPENING MORE DOORS

31.3.14

|                  |       |                        |
|------------------|-------|------------------------|
| <b>CLANN LIR</b> | 13:30 | Gwyn Hall              |
| <b>KING HIT</b>  | 19:00 | Pontardawe Arts Centre |

1.4.14

|                      |       |                        |
|----------------------|-------|------------------------|
| <b>ECHOA</b>         | 10:30 | Gwyn Hall              |
| <b>ULYSSES</b>       | 13:00 | Pontardawe Arts Centre |
| <b>KING HIT</b>      | 13:30 | Lyric Caerfyrddin      |
| <b>CLANN LIR</b>     | 14:00 | Theatr Felinfach       |
| <b>MUMMERS' PLAY</b> | 19:30 | Pontardawe Arts Centre |

2.4.14

|                |       |               |
|----------------|-------|---------------|
| <b>ULYSSES</b> | 13:30 | Theatr Mwldan |
|----------------|-------|---------------|

4.4.14

**THE QUIET TREE AND THE CREATURES OF  
WHISTLEBERRY FOREST** 10:00 + 11:30 – Theatr Felinfach



## LUNA

**Theatr Iolo + Theatre Hullabaloo (Cymru / Wales)**

**Oed / Age:** 2 – 5 **Hyd / Duration:** 45m

**Perfformwyr / Performers:** Chris Farish, Greg Hall,  
Jessica Hayles

**Cyfarwyddwr / Director:** Sarah Argent

Profiad theatr hudol am gyfeillgarwch, y lleuad a bod yn ddewr yn y tywyllwch. Mae gan Theatr Iolo 25 mlynedd o brofiad o deithio perfformiadau i bobl ifanc. Mae'r cwmni wedi perfformio mewn gwyliau yn yr Alban, Rwsia, Korea, y Weriniaeth Czech, y Ffindir, Gwlad Belg, Iwerddon, Yr Almaen ac Awstria. Mae Theatr Hullabaloo yn creu, teithio a hyrwyddo gwaith theatr i gynulleidfaoedd ifanc. Mae eu gŵyl 'TakeOff Festival' i blant a phobl ifanc yn sicrhau fod gwaith safonol o Brydain a gweddill y byd yn cael ei berfformio yng ngogledd Ddwyrain Lloegr bob blwyddyn.

*An enchanting theatre experience about friendship, the moon and being brave in the dark. Theatr Iolo has been touring compelling performances for children and young people for over 25 years. They have performed in Scotland, Russia, Korea, the Czech Republic, Finland, Belgium, Ireland, Germany and Austria. Theatre Hullabaloo makes, tours and promotes theatre for young audiences. Their annual TakeOff festival of theatre for children and young people brings fantastic work from the UK and abroad to the North East of England in the autumn.*

**Cyswllt / Contact:** Kerry Difelice - [kerry@theatriolo.com](mailto:kerry@theatriolo.com)  
+4429 20613 782 - [www.theatriolo.com](http://www.theatriolo.com)





## THE QUIET TREE AND THE CREATURES OF WHISTLEBERRY FOREST

**Ceol Connected (Iwerddon / Ireland)**

**Oed / Age:** 2 – 3 / 4 – 5 **Hyd / Duration:** 45m

**Performwyr / Performers:** Thomas Johnston & Stephen Markham

Dewch i ganu, dawnsio ac arbrofi gydag offerynnau mewn gweithdy cyfranogol i blant bach. Cwmni ifanc a bywiog yw Ceol Connected ac mae'n cyflwyno perfformiadau cerddorol cyfranogol i blant a phobl ifanc. Wedi eu lleoli yn Iwerddon, mae'r diwylliant a cherddoriaeth Wyddelig yn rhan annatod o'u hethos a'u gwaith. Mae'r cwmni yn awyddus i ddatblygu cysylltiadau er mwyn rhannu eu gwaith gyda chynulleidfaedd rhyngwladol.

*Sing, Dance and Explore Musical Instruments in this participatory workshop performance for Young Children. Ceol Connected is a young and vibrant company which designs and presents innovative participatory music performances for children and young people in a range of contexts. Based in Ireland and with Irish traditional music and culture embedded in our ethos and practice, we welcome all opportunities to share our work with international audiences.*

**Cyswllt / Contact:** Thomas Johnston  
thomas.johnston@gmail.com • +353 87 618 3301  
www.ceolconnected.ie



## WHERE THE LEAVES BLOW

**Cwmni Theatr Arad Goch (Cymru / Wales)**

**Oed / Age:** 2 – 8 **Hyd / Duration:** 60m

**Perfformwyr / Performers:** Ffion Wyn Bowen & Gethin Lloyd Evans

**Cyfarwyddwr / Director:** Jeremy Turner

Mae WHERE THE LEAVES BLOW yn rhan o ddatblygiad newydd gan Arad Goch i greu gwaith agos atoch ar gyfer plant bach a theuluoedd. Mae'n cyfuno perfformio'r tu allan a'r tu mewn, gwrthrychau naturiol a cherddoriaeth fyw. Cafwyd dros 150 o berfformiadau o'r sioe yng Nghymru, Rwsia a Thunisia a cheir perfformiadau eraill yn Ne Korea yn 2014.

*WHERE THE LEAVES BLOW is part of a new development by Arad Goch of intimate work for small children and families. It combines indoor and outdoor performance, found and natural objects and live music. It has had over 150 performances in Wales, Russia and Tunisia and will be performed in South Korea in 2014. When performing in other countries part of the play is performed in the local language.*

**Cyswilt / Contact:** Jeremy Turner · [Jeremy@aradgoch.org](mailto:Jeremy@aradgoch.org)  
[www.aradgoch.org](http://www.aradgoch.org) · +44 1970 617 998



## KISH KUSH (TRACES OF AN ENCOUNTER)

**Teatrodistinto (Yr Eidal / Italy)**

**Oed / Age:** 3+ **Hyd / Duration:** 50m

**Perfformwyr / Performers:** Alessandro Nosotti,  
Daniel Gol

**Cyfarwyddwr / Director:** Laura Marchegiani,  
Alessandro Nosotti, Daniel Gol

Sioe hudolus i blant bach ble mae'r set a'r gynulleidfa'n cael eu rhannu'n ddau. Trwy wrthdaro, chwarae a darganfod mae'r ddau gymeriad yn archwilio themâu fel cyfaddawdu a rhannu. Cafodd Teatrodistinto ei sefydlu yn 2003 ac mae'n cyfuno sawl ymarfer megis theatr gorfforol, gwaith byrfyfyr a phrosiectau mewn cyd-destunau cymdeithasol ac mewn ysgolion. Mae'r sioe ar daith i nifer o wyliau tramor ar hyn o bryd.

*A fascinating performance for small children where the set and the audience is split in two. Through conflict, play and curiosity the two characters explore themes such as compromise and sharing. Teatrodistinto was founded in 2003 by the encounter of different disciplines, such as physical theater, improvisation and projects in social contexts and schools. The performance is currently touring International Festivals.*

**Cyswllt / Contact:** Linda Erolì • [teatrodistinto@gmail.com](mailto:teatrodistinto@gmail.com)  
+393 933 197 060 • [www.teatrodistinto.it](http://www.teatrodistinto.it)



## CWPWRDD DILLAD (THE WARDROBE)

**Cwmni'r Frân Wen (Cymru / Wales)**

**Oed / Age:** 3 – 6 **Hyd / Duration:** 45m

**Perfformwyr / Performers:** Iwan Charles,  
Leisa Mererid

**Dyfeiswyr / Creators:** Iola Ynyr, Iwan Charles, Leisa  
Mererid, Luned Rhys Parri

**Cyfarwyddwr / Director:** Iola Ynyr

Myrdd o gymeriadau ar daith gyda'u rhythm bywyd unigryw eu hunain ac wedi eu huno gan dymestl, llawenydd a thawelwch bywyd. Ein nod yw creu theatr sy'n ysbrydoli'r dychymyg, y meddwl a'r galon ac yn dathlu rhyfeddod y byd. Rydym yn cynhyrchu theatr o'r safon uchaf sy'n cyffroi, herio ac ysbrydoli ein cynulleidfa. Braint yw cael ein dewis gan Gyngor Celfyddydau Cymru i berfformio 'Dim Diolch' yng Ngwyl Fringe Caeredin 2014.

*A host of characters travelling with different rhythms and united by the surprises, happiness and silence of life. Our aim is to create theatre which inspires the imagination, the mind and the heart and that celebrates the wonders of the world. We produce theatre of the highest calibre which excites, challenges and inspires our audience. We are honoured to have been selected by the Arts Council of Wales to perform 'Dim Diolch' at the Edinburgh Fringe Festival 2014.*

**Cyswllt / Contact:** Nia Jones · Olwen Mai Williams  
nia@franwen.com · olwen@franwen.com · +44 1248 715048  
www.franwen.com



## CLANN LIR (THE CHILDREN OF LLŶR)

**Branar (Iwerddon / Ireland)**

**Oed / Age:** 6 – 10 **Hyd / Duration:** 40m

**Perfformwyr / Performers:** Michael Chang, Neasa Ni Chuanagh, Pat Hargan, Grace Kiely

**Cyfarwyddwr / Director:** Marc Mac Lochlainn

Perfformiad hudolus gyda phypedau yn adrodd chwedl hynafol y Brenin Llŷr. **Yn cyflwyno straeon mawr i ddinasyddion bychain.** Yn ystod y 13 mlynedd diwethaf mae Branar wedi datblygu a chynhyrchu nifer o berfformiadau theatr safonol i blant. Mae'r cynrychiadau bob amser yn addas i gynulleidfaoedd rhyngwladol gan nad yw'r iaith yn bwysig ac maen nhw'n llwyddo i hudo cynulleidfaoedd ifanc a hen. Mae Branar yn perfformio'n gyson mewn gwyliau rhyngwladol.

*A captivating performance with puppets relating the ancient legend of King Lir. **We tell big stories for little citizens.** Branar in its 13 year history have developed and produced many high quality children's theatre performances. They create shows that are not language dependent and captivate audiences both young and old. Branar tours extensively throughout Ireland and internationally.*



**Cyswllt / Contact:** Joanne Beirne · joanne@branar.ie  
+ 353 91 704 718 · + 353 87 206 7946  
www.branar.ie



## ULYSSES

**Bambalina Teatre Practicable (Valencia)**

**Oed / Age:** 6+ **Hyd / Duration:** 55m

**Perfformwyr / Performers:** David Durán, Carlos Gracia, Luís M. Romaguera

**Cyfarwyddwr / Director:** Ramón Moreno

Hanes yr arwr Groegaidd 'Ulysses' yn dod yn fyw yng nghwmni tri actor cofiadwy a'u sgiliau pypedau anhygoel. Mae Bambalina wastad wedi sefyll allan oherwydd natur rhyngddisgyblaethol ei sioeau ac oherwydd ei ddefnydd o iaith theatr sy'n adleisio dramodwyr cyfoes y dydd. Mae wedi llwyfannu gweithiau nodedig o lenyddiaeth fyd-eang a repertoire cerddorol adnabyddus.

*Greek Hero Ulysses is brought to life in the company of three memorable actors and their amazing puppetry skills. Bambalina has always been outstanding for the interdisciplinary vocation of its shows and for its use of a theatre language in tune with the most contemporary playwrights. It has staged some emblematic works of universal literature and musical repertoire.*



**Cyswllt / Contact:** Angeles González · [info@bambalina.es](mailto:info@bambalina.es)  
+34 96 391 1373 · [www.bambalina.es](http://www.bambalina.es)



## IZZI TOOINSKY AND THE MAN EATING CHICKEN

**Izzi Tooinsky (UDA / USA)**

**Oed / Age:** 7+ **Hyd / Duration:** 45m

**Perfformiwr + Chyfarwyddwr / Performer + Director:**  
Izzi Tooinsky

Mae Izzi yn un o ddim ond saith o bobl o bobl o amgylch y byd sy'n cynnal y traddodiad o gyfuno dwy gelfyddyd nodedig – jyglo ac adrodd straeon – ar yr un pryd! Mae Izzi wedi ennill nifer o wobrau gan gynnwys gwobr grant gan gwmni Disney. Yn ogystal â pherfformio mae Izzi yn awdur ac mae'n cynnal gweithdai syrcas ar gyfer pobl ifanc ac oedolion.

*Izzi is one of only seven people throughout the world who combine two great arts at the same time – juggling and storytelling! Izzi has won several prizes including the Disney Touring Grant Award. As well as performing, Izzi is an author and also teaches circus skills workshops for teens and adults.*

**Cyswllt / Contact:** Izzi Tooinsky - [izzi@izzitooinsky.com](mailto:izzi@izzitooinsky.com)  
+1 530 210 5387 - [www.izzitooinsky.com](http://www.izzitooinsky.com)



## THE ENORMOUS TURNIP

**Armagh Rhymers (Gogledd Iwerddon / Northern Ireland)**

**Oed / Age:** 7+ **Hyd / Duration:** 50m

**Perfformwyr / Performers:** Dara Vallely, Eoin Kelly, Ger Curran

**Cyfarwyddwr / Director:** Dara Vallely

Perfformiad hwyliog a gwerinol sy'n tynnu ar hen ddefodau, caneuon plant a rhigymau chwarae wrth adrodd stori am hen filwr tlawd. Wedi ei sefydlu yn y 1970au, Armagh Rhymers oedd cwmni theatr proffesiynol cyntaf Gogledd Iwerddon. Mae'r cwmni wedi teithio i nifer o wyliau rhyngwladol yn America, Canada, Asia ac Ewrop ac fe ymddangoson nhw yng ngŵyl gyntaf Agor Drysau ym 1996! Yn 2011 enillodd eu prosiect OASES wobwr rhyngwladol yr UNAWE.

*An earthy and lively performance using old customs, children's songs and playground rhymes to tell the story of a poor old soldier. Established in the 1970s, The Armagh Rhymers are Northern Ireland's oldest professional theatre company. They have also fascinated audiences worldwide through festivals in USA, Canada, Asia and Europe and they performed in our first Agor Drysau Festival in 1996! In 2011 their OASES project received the international UNAWE award.*

**Cyswllt / Contact:** Geraldine Curran  
info@armaghrhymers.com · 07751 268 512  
www.armaghrhymers.com





## ECHOA

**Compagnie Arcosm (Ffrainc / France)**

**Oed / Age:** 7+ **Hyd / Duration:** 50m

**Dawnsywyr / Dancers:** Thomas Guerry,  
Emmanuelle Gouiard

**Cerddorion / Musicians:** Camille Rocailleux /  
Mathieu Ben Hassen

**Cyfarwyddwr / Director:** Bertrand Guerry

Dau ddawnsiwr a dau offerynnwr sy'n mynd â ni ar daith anturus gan greu straeon a fynegir trwy ddawns a rhythmau bywiog cerddoriaeth Lladin sionc. Prif fwriad y Cwmni yw adeiladu pontydd rhwng gwahanol ieithoedd a disgyblaethau artistig; cerddoriaeth, dawns a chanu sydd wrth wraidd yr agwedd artistig yma. ECHOA oedd un o uchafbwyntiau Gŵyl AGOR DRYSAU 2008.

*Two dancers and two percussionists take us on an intriguing journey creating stories told through exuberant dance and rhythm with Latin music. The Company's main objective is to build bridges between different artistic disciplines and languages; music, dance and singing are at the root of this artistic approach. Echoa was one of the highlights of OPENING DOORS Festival 2008.*

**Cyswllt / Contact:** Damien Lenormand  
damien@mitiki.com · +33 (0)630 860 620  
www.compagniearcosm.fr



## ADAR LLATAI (MESSENGER BIRDS)

**Georgia Ruth (Cymru / Wales)**

**Oed / Age:** 7 – 11 **Hyd / Duration:** 45m

**Perfformwraig / Performer:** Georgia Ruth

Wedi ei magu yn Aberystwyth, mae Georgia Ruth yn gantores, yn delynores, yn gyfansoddwraig a chyflwynydd radio sy'n gwneud enw mawr i'w hunan ymhob cwr o'r byd. Cipiodd ei albwm gyntaf 'Week of Pines' y Wobr Gerddoriaeth Gymreig yn 2013 gan ddenu sylw a chlod DJ's enwog megis Steve Lamacq a Jo Whiley ac mae hithau hefyd yn gyflwynydd ar BBC Radio Cymru! Mae Georgia wedi perfformio yn Glastonbury a Gŵyl Werin Toronto.

*Raised in Aberystwyth, Georgia Ruth is a singer, songwriter, harpist and BBC Radio presenter who's making a huge name for herself across the world. Her debut album 'Week of Pines' was released in 2013 and won the 2013 Welsh Music Prize, gaining praise from the UK's top radio DJ's including Steve Lamacq and Jo Whiley. Georgia has performed in Festivals including Glastonbury and Toronto's Folk Alliance Festival.*

**Cyswllt/ Contact:** [georgiaruth88@googlemail.com](mailto:georgiaruth88@googlemail.com)  
[www.georgiaruthmusic.co.uk](http://www.georgiaruthmusic.co.uk)



## MUMMERS PLAY

### **The Armagh Rhymers (Gogledd Iwerddon / Northern Ireland)**

**Oed / Age:** 7+ **Hyd / Duration:** 50m

**Perfformwyr / Performers:** Dara Vallely, Eoin Kelly, Ger Curran

**Cyfarwyddwr / Director:** Dara Vallely

Perfformiad neilltuol o un o ddramâu 'Mudchwarae' hynafol Gogledd Iwerddon, gyda barddoniaeth Seamus Heaney a John Montague. Wedi ei sefydlu yn y 1970au, Armagh Rhymers oedd cwmni theatr proffesiynol cyntaf Gogledd Iwerddon. Mae'r cwmni wedi teithio i nifer o wyliau rhyngwladol yn America, Canada, Asia ac Ewrop ac fe ymddangoson nhw yng ngŵyl gyntaf Agor Drysau ym 1996! Gartref yng Ngogledd Iwerddon, mae'r Armagh Rhymers yn addysgwyr ymroddedig ac yn arloeswyr ym maes mentrau heddwch trwy gyfrwng y celfyddydau.

*A unique performance of one of Northern Ireland's traditional Mummings' plays, with poetry by Seamus Heaney and John Montague. Established in the 1970s, The Armagh Rhymers are Northern Ireland's oldest professional theatre company. They have also fascinated audiences worldwide through festivals in USA, Canada, Asia and Europe. At home The Armagh Rhymers are committed educationalists and pioneers in peace initiatives through arts.*

**Cyswllt / Contact:** Geraldine Curran  
info@armaghrhymers.com - 07751 268 512  
www.armaghrhymers.com



## OUTSIDERS

**Matthew Jones, David Haylock, Prifysgol  
Aberystwyth University + Cwmni Theatr Arad Goch  
(Cymru / Wales)**

**Oed / Age:** 13+ **Hyd / Duration:** 60m

**Perfformwyr / Performers:** Guto Rhun, Mari Elen,  
Gwion Llŷr

**Cyfarwyddwr / Director:** Matthew Jones

Cynnyrch doethuriaeth Matthew Jones a David Haylock, dau fyfyrwr o Brifysgol Aberystwyth, yw *Outsiders*. Ceisia sefydlu sut y gall theatr a thechnoleg ddigidol ddod ynghyd heb i un oresgyn y llall, a hynny o fewn drama sydd yn archwilio hunaniaeth yr ifanc yn y Gymru fodern. Dyma ddarn o theatr sy'n arfogi'r gynulleidfa ifanc, fodern gyda'r teclynnau i ddylanwadu'n anhysbys ar y cymeriadau, i gael dweud ei dweud ac i leoli ei hunan o fewn byd yr *Outsiders*.

*Outsiders is a product of the PhDs of Matthew Jones and David Haylock from Aberystwyth University. It aims to establish how theatre and digital technology can be combined without one overshadowing the other. The play explores the identities of young people in modern Wales and the result is a piece of theatre which equips it's young, modern audience with the tools to anonymously influence the characters and have their say.*

**Cyswllt / Contact:** Matthew Jones - [matthew@aradgoch.org](mailto:matthew@aradgoch.org)  
+44 1970 617998 - [www.aradgoch.org](http://www.aradgoch.org)



## SEXTING

**Cwmni Theatr Arad Goch (Cymru / Wales)**

**Oed / Age:** 13+ **Hyd / Duration:** 60m

**Perfformwyr / Performers:** Nia Ann, Lowri Sion,  
Endaf Eynon Davies, Dafydd Evans

**Awdur / Author:** Bethan Gwanas

**Cyfarwyddwr / Director:** Angharad Lee

Mae SXTO – ymyrraeth rywiol drwy neges destun – yn ganlyniad prosiect tair blynedd, pan weithiodd yr awdur, cyfarwyddwr ac actorion gyda phobl ifanc i ymchwilio defnydd dinistriol o gyfryngau cymdeithasol. Mae’n stori am bobl gyffredin mewn sefyllfa eithafol. Mae’r cynhyrchiad wedi teithio’n eang yng Nghymru; mae’n rhan o repertoire y cwmni ar gyfer teithio yn y DG a thramor.

*SEXTING – sexual harassment through texting – is the result of a three year research project when the author, performers and director worked with young people to explore the negative and destructive misuse of social media. It’s the story of everyday people in an extreme situation. The production has toured extensively in Wales and remains in the company’s repertoire for touring in the UK and abroad.*

**Cyswllt / Contact:** Jeremy Turner - [Jeremy@aradgoch.org](mailto:Jeremy@aradgoch.org)  
+44 1970 617998 - [www.aradgoch.org](http://www.aradgoch.org)



## DEAD BORN GROW

**National Youth Theatre of Wales (Cymru / Wales)**

**Oed / Age:** 14+ **Hyd / Duration:** 45m

**Perfformwyr / Performers:** Zaceus Taylor, Franziska Brunzel-Roberts, Chloe Collins, Ellis Duffy, Naomi Hyatt Golding, Katie Iles, Dafydd Lansley, Fay Steere, Jessica Tait, Maeve Bluebell Tonkin Wells, Rhys Warrington, Bethan Young

**Cyfarwyddwyr / Directors:** Eddie Kay + Jessica Williams

Sefydlwyd Theatr Genedlaethol Ieuentid Cymru ym 1976. Mae'n cynnig hyfforddiant a chyfleoedd creadigol a pherfformiadol heb eu hail i filoedd o bobl ifanc rhwng 16 – 21 oed. Mae eu cynyrchiadau wedi teithio i theatrau, lleoliadau cymunedol a lleoliadau safleoedd arbennig led led Cymru.

*The National Youth Theatre of Wales (NYTW) was founded in 1976. It provides first-class training, creative and performance opportunities for thousands of young people aged 16 – 21. NYTW productions have toured to theatres, community venues and site-specific locations throughout Wales.*

**Cyswllt / Contact:** Pauline Crossley  
pauline.crossley@nyaw.co.uk • +4429 2026 5060  
www.nyawperformio.co.uk



## PIRATES AND MERMAIDS

**Poorboy Theatre (Yr Alban / Scotland)**

**Oed / Age:** 14+ **Hyd / Duration:** 90m

**Perfformiwr / Performer:** Jeremiah Reynolds

**Awduron / Authors:** Sandy Thomson & Jeremiah Reynolds

**Cyfarwyddwr / Director:** Sandy Thomson

Dau gariad, dau gyfandir, yn rhannu dwy ffordd o fyw trwy ffonau symudol a thechnoleg fideo. Defnyddir technoleg fodern i adrodd hanes oesol cynnal perthynas o hirbell. Mae Poorboy, a sefydlwyd yn 2002, wedi cael sylw blaenllaw yng nghasgliad rhyngwladol Made in Scotland ac IETM a nhw greodd Falling, sef sioe gyntaf Theatr Genedlaethol Yr Alban. Maent wedi eu henwebu ar gyfer gwobrau CATS Award a'r Stage Award.

*Two lovers, two continents, safely sharing two ways of life on mobile phones and video technology. A stunning performance using modern technology about the universal story of a long distance relationship. Established in 2002, Poorboy have featured in international showcases for Made in Scotland and IETM. They created the first show by the National Theatre of Scotland – Falling. They have been nominated for CATS Award and Stage Award.*

**Cyswilt / Contact:** Sandy Thomson • sandy@poorboy.co.uk  
7764 940 512 • www.thebellrock.org



## KING HIT

**Zeal Theatre (Awstralia / Australia)**

**Oed / Age:** 14+ **Hyd / Duration:** 55m

**Perfformwyr a Chyfarwyddwyr / Performers &**

**Directors:** Tom Lycos, Stefo Nantsou

Wedi ei sefydlu ym 1989, mae Zeal wedi cynhyrchu dros 45 o gynyrchiadau gwreiddiol. Arbenigedd Zeal yw cynhyrchu gwaith theatr heriol i bobl ifanc yn eu harddegau ac maent yn teithio'n helaeth o fewn ysgolion a theatrau yn Awstralia ac i wyliau yn Ewrop, Gogledd America ac Asia. Yn 2005 cipiodd Zeal wobwr ASSITEJ am eu cyfraniad arbennig i waith theatr ar gyfer pobl ifanc.

*Founded in 1989, Zeal has created over 45 original productions. Zeal specializes in producing challenging work for teenage audiences and they tour in theatres and schools around Australia and appear in festivals throughout Europe, North America and Asia. In 2005, Zeal Theatre won the ASSITEJ Award for "outstanding services to the theatre for young people industry."*

**Cyswllt / Contact:** Stefo Nantsou • [zealtheatre@hotmail.com](mailto:zealtheatre@hotmail.com)  
+61 421 887 003 • [www.zealtheatre.com.au](http://www.zealtheatre.com.au)



## **GWEITHDAI PROFFESIYNOL / PROFESSIONAL WORKSHOPS @ CANOLFAN ARAD GOCH**

**2.4.14 @ 17:00** – Branar Theatre – Bydd aelodau cwmni Branar yn cyflwyno gweithdy sy'n archwilio cyfuno gwaith pypedau, symud a cherddoriaeth wrth gyflwyno straeon creadigol. *Branar company members will facilitate a workshop that explores combining puppetry, movement and music in creative storytelling.*

**3.4.14 @ 17:00** – Zeal Theatre – Bydd y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar gyd-ddyfeisio fel grŵp, technegau actio, delweddu grymus a chelfyddyd addasu digwyddiadau a straeon go iawn ar gyfer y llwyfan. *This workshop will focus on group-devising, acting technique, powerful images and the art of dramatizing real stories and events.*

**4.4.14 @ 17:00** – Poorboy Theatre – Dyfeisio ar gyfer safleoedd arbennig: Creu sioe fel Pirates and Mermaids – anturiau ac ymarferion actio ar gyfer creu drama. *Site specific devising: Creating a show like Pirates and Mermaids – adventures and acting exercises to create a play.*




## **TRAFODAETHAU AGORED / OPEN DISCUSSIONS @ CANOLFAN ARAD GOCH**

**1.4.14 @ 15:00** – 'Theatr i gynulleidfaoedd ifanc: Beth newidiodd yn ystod y 25 mlynedd diwethaf? Beth yw ein dyheadau ar gyfer y 25 mlynedd nesaf?' *'Theatre for young audiences: What changed over the past 25 years? What are our hopes for the next 25 years*

**3.4.14 @ 15:00** – 'Cyflwyno plant ifanc i amrywiol gerddoriaeth a cherddoriaeth draddodiadol – effaith trawsnewidiol addysg perfformio cerddoriaeth.' – Dan arweiniad Dr Thomas Johnston, Iwerddon. *'Introducing young children to traditional and other musics – the transformative effect of performance music education.'* – Led by Dr Thomas Johnston, Ireland.









**4.4.14 @ 15:00** – 'Perfformiadau byw gyda chyfryngau digidol: theatr neu gimmick?' *'Live performance with digital media: theatre or gimmick?'*

# Agorwch y Drws i Fyd o Lyfrau Open the Door to a World of Books



# Atebol ...

yn agor drysau drwy'r flwyddyn!



... llyfrau a gemau addysgol sy'n gwneud gwahaniaeth!

@Atebol



facebook.com/atebol



Am fwy o fanylion ewch i

[www.atebol.com](http://www.atebol.com)

T: 01970 832 172

e-bost: [atebol@atebol.com](mailto:atebol@atebol.com)



# ultracomida

BWYD GWLAD BLASUS | DELICIOUS ARTISAN FOOD

## TAPAS, CAWS A BWYD I FYND ALLAN

Ymwelwch â ni yn 31 Heol y Wig, Aberystwyth  
neu ymwelwch â'n gwefan  
[www.ultracomida.co.uk](http://www.ultracomida.co.uk)

Cyflwynwch yr hysbyseb yma i dderbyn gostyngiad o  
15% ar ein bwyd i fynd allan neu i dderbyn gwydraid o  
win y tŷ pan wariwch £10 yn y caffï.

(Cynnig yn ddilys 29ain Mawrth 2014 tan 12ed Ebrill 2014)

---

## TAPAS, TAKEOUTS AND CHEESE

Visit us at 31 Pier Street, Aberystwyth  
or check our website  
[www.ultracomida.co.uk](http://www.ultracomida.co.uk)

Bring this ad to claim your 15% discount on any of our  
takeout food or to claim a free glass of house wine when  
you spend £10 in the cafe.

(Offer valid 29th March 2014 until 12th April 2014)



**Cyflenwyr a chynhalwyr  
systemau a datrysiadau  
TG i'r sector broffesiynol**



**Supplier of IT solutions  
and support to the  
professional sector**

 **01239 710823**

 **post@bccit.co.uk**

 **www.bccit.co.uk**

 **@bccit**

## **CWMNI THEATR ARAD GOCH - BETH ARALL YDYN NI'N EI WNEUD?! WHAT ELSE DO WE DO?!**

Cynhyrchu gwaith theatr newydd yn y Gymraeg a'r Saesneg.  
*Produce new theatre productions in Welsh and English.*

Perfformio dros 200 o berfformiadau o'n gwaith i dros 21,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd yng Nghymru bob blwyddyn. Perfformio mewn gwyliau tramor. *Perform over 200 performances of our work to an average audience of over 21,000 children, young people and families in Wales. Perform in international festivals.*

Arwain clybiau drama wythnosol i blant a phobl ifanc. *Run weekly drama clubs for children and young people.*

Mentora artistiaid ifanc i ddatblygu sgriptiau a chynyrchiadau o'r newydd. *Mentor young artists as they develop new scripts and productions.*

Rhannu Canolfan Arad Goch gydag artistiaid preswyl ifanc a'u helpu i ddatblygu prosiectau newydd. *We share the facilities at Canolfan Arad Goch with our young resident artists and help them to develop new projects.*

Cynnig cyfleoedd cyfranogol ym maes ffilm, cerddoriaeth, celf a radio. *Offer participatory opportunities to young people in the fields of film, music, art and radio.*

Rydym yn bartner rhanbarthol ar gyfer somewhere to\_ ac yn canfod gofodau i bobl ifanc ddatblygu gwaith. *We are a regional delivery partner for somewhere to\_ which helps young people access space to develop their own projects.*





CANOLFAN Y CELFYDDYDAU  
ABERYSTWYTH ARTS CENTRE

# Nodiadau / Notes





# Nodiadau / Notes

**aradgoch**

*frantic***assembly**

 **the  
armagh  
rhymers**

**bambalina**  **www.bambalina.com**

TEATRODISTINTO



Theatr  
Iolo

**ZEAL  
THEATRE**

**poor boy**



**COMPAGNIE ARCOSM**

**cfw**  
Cwmni Ffrain Wen  
www.frainwen.com





**Cwmni Theatr Arad Goch**

Stryd y Baddon  
Aberystwyth  
Ceredigion  
SY23 2NN

[www.aradgoch.org](http://www.aradgoch.org)

@aradgoch

fb /Cwmni Theatr Arad Goch

Rhif elusen: 702506